## Mynediad at Eiddo a Gwybodaeth am Dir.

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy'n hwyluso mynediad at wybodaeth Pridiannau Tir drwy gyfrwng un o'r tri o ddulliau a restrir isod.

Mae'n bwysig nodi y darperir mynediad at y wybodaeth yn ***rhad ac am ddim***, pa bynnag ddull a ddewisir. Ni chodir unrhyw dâl dan y drefn Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol ond am ddarparu copïau o'r wybodaeth ar bapur ar gais, a bydd y tâl hwnnw'n rhesymol ac yn seiliedig ar adennill y costau'n unig. Ni chodir unrhyw dâl dan Ddull Estynedig 1 na 2 ond am y gwasanaeth estynedig a ddarperir uwchlaw hwyluso mynediad at y wybodaeth am ddim.

**Mynediad dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol:**

I gael gwybodaeth dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, cyflwynwch eich cais i'r gwasanaeth perthnasol o blith y rhai isod:

- Cynllunio – cysylltwch â gwasanaethau.rheoleiddio@conwy.gov.uk / Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Blwch Post 1, CONWY, LL30 9GN.
- Rheoli Adeiladu – cysylltwch â gwasanaethau.rheoleiddio@conwy.gov.uk / Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Blwch Post 1, CONWY, LL30 9GN.
- Gorfodaeth Tai – cysylltwch â gwasanaethau.rheoleiddio@conwy.gov.uk / Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Blwch Post 1, CONWY, LL30 9GN.
- Iechyd yr Amgylchedd – cysylltwch â gwasanaethau.rheoleiddio@conwy.gov.uk / Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Blwch Post 1, CONWY, LL30 9GN.
- Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau - affch@conwy.gov.uk / Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Mochdre, Bae Colwyn.

Fel arall, cysylltwch â info-gov.unit@conwy.gov.uk ac fe drosglwyddir eich ymholiad yn syth i un neu fwy o'r gwasanaethau uchod.

Yna bydd y gwasanaeth yn cysylltu â chi i wneud trefniadau ar gyfer darparu'r wybodaeth ichi ei gweld ar amser a dyddiad penodol, mewn man penodol.

Gwneir pob ymdrech i ddarparu mynediad yn brydlon, ond ni ellir rhagweld yr union amseroedd a dyddiadau ar gyfer gweld y wybodaeth gan fod hynny'n dibynnu ar swm yr ymholiadau/gwaith ar y pryd.

| - 1 | *Dyddiad* | *Enw* | *Gwasanaeth* | *Nodiadau* |
|---|---|---|---|---|
| *F1* | *Mehefin 2010* | *DOC – IRU* | *GCaGC* | *Ffeil / V4 2023 - cym-access to property and land charges information_cy.doc* |
| *F2* | *Medi 2010* | *DOC – IRU* | *GCaGC* | |
| *F3 – diwygio manylion e-bost* | *Hydref 2011* | *DOC – IGU* | *GCaGC* | |
| *F4 - diwygio* | *Mehefin 2016* | *DOC/CSL* | *Rheoleiddio* | |

Sylwer na fydd y sawl sy'n hwyluso mynediad ichi'n meddu ar unrhyw gymwysterau yn y maes dan sylw ac felly ni fyddant yn medru ateb unrhyw gwestiynau. Os oes gennych unrhyw gwestiynau bydd arnoch angen defnyddio Dull Estynedig 1 neu 2 fel bod rhywun cymwys yn medru eu hateb.

Os oes arnoch angen copïau o'r wybodaeth ar bapur gellir darparu'r rheiny am dâl rhesymol, fel y nodir uchod.

**Mynediad drwy Ddull Estynedig 1 neu 2.**

I gael mynediad at wybodaeth drwy Ddull Estynedig 1 neu 2, anfonwch gais drwy e-bost i'r Uned Pridiannau Tir Lleol – pridiannautirlleol@conwy.gov.uk neu drwy'r post i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Blwch Post 1, CONWY, LL30 9GN gan nodi a ddymunwch ddefnyddio dull 1 ynteu 2.

| | ***Cais dan ddarpariaethau'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.*** | ***Cais drwy Ddull Estynedig 1*** | ***Cais drwy Ddull Estynedig 2*** |
|---|---|---|---|
| **Dull mynediad** | Cais wedi'i gyflwyno'n uniongyrchol i'r gwasanaeth penodol sy'n cadw'r wybodaeth a geisir;<br><br>Cynllunio.<br>Rheoli Adeiladu.<br>Gorfodaeth Tai.<br>Iechyd yr Amgylchedd.<br>Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau.<br><br>Gweler y manylion cyswllt uchod.<br><br>Wedyn bydd y gwasanaeth yn cysylltu â chi i wneud trefniadau ar gyfer darparu'r wybodaeth ichi ei gweld.<br><br>Gellir cyflwyno ceisiadau'n uniongyrchol i'r Uned Llywodraeth Gwybodaeth | Dylid anfon ceisiadau drwy e-bost i'r Uned Pridiannau Tir Lleol pridiannautirlleol@conwy.gov.uk.<br><br>Rhaid cynnwys yn yr e-bost:<br><br>Eich cyfeiriad busnes a rhif ffôn.<br><br>Cyfeiriad yr eiddo i'w chwilio.<br><br>Y math o chwiliad a geisir (**heb gofrestr** ynteu **fynediad llawn**).<br><br>Sylwer - mae'n rhaid darparu cynllun sydd wedi'i farcio'n bendant ac sy'n dangos y ffiniau y dymunir chwilio y tu mewn iddynt. | **CON29 Electronig:**<br>Gellir gwneud cais am chwiliad CON29 electronig (a fydd yn ateb pob cwestiwn) drwy wefan Conwy. Gellir cyflwyno'r cais a derbyn y canlyniadau'n electronig.<br><br>**Chwiliad llawn LLC1 a CON29:**<br>Mae'r chwiliad hwn ar gael yn electronig (darperir ateb i bob cwestiwn a chofrestr Pridiannau Tir Lleol). |

| | *Cais dan ddarpariaethau'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.* | *Cais drwy Ddull Estynedig 1* | *Cais drwy Ddull Estynedig 2* |
|---|---|---|---|
| | ganolog a fydd yn trosglwyddo'r cais neu geisiadau i'r gwasanaeth penodol sy'n cadw'r wybodaeth a geisir, a bydd y gwasanaeth hwnnw'n cysylltu â chi wedyn i wneud y trefniadau angenrheidiol fel y nodir uchod. | | |
| **Y wybodaeth a ddarperir** | Dim ond y Wybodaeth a gedwir ar y dyddiad y gwneir y cais a gaiff ei darparu ichi ei gweld.<br><br>Ni ddarperir unrhyw wybodaeth newydd a gaiff ei dderbyn a'i gadw ar ôl dyddiad derbyn y cais. | **Heb Gofrestr**<br><br>**Chwiliad Mynediad at Wybodaeth CON29 (heb gofrestr Cynllunio a Phriffyrdd):**<br><br>Ni ddarperir ateb i Gwestiwn 1.1 (a) – (i) Cynllunio na<br>Chwestiynau 2.1a a 2.2 yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau.<br><br>Bydd yr Uned Pridiannau Tir Lleol yn darparu'r gweddill o'r atebion i'r cais CON29.<br><br>**Cofrestr Lawn**<br><br>**Chwiliad Mynediad at Wybodaeth CON29 llawn:**<br><br>Yr Uned Pridiannau Tir Lleol fydd yn darparu'r holl atebion i'r cais CON29. | Bydd yr adroddiad ar bob chwiliad yn cynnwys:<br><br>• Cwestiynau ac atebion<br>• Rhagor o wybodaeth<br>• Manylion cyswllt adrannau<br>• Cynllun yn dangos yr ardal a chwiliwyd<br>• Cynllun yn dangos llwybrau cyhoeddus. |

| | Cais dan ddarpariaethau'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol. | Cais drwy Ddull Estynedig 1 | Cais drwy Ddull Estynedig 2 |
|---|---|---|---|
| | | Bydd yr adroddiad ar bob chwiliad yn cynnwys:<br>• atebion<br>• cynllun yn dangos yr ardal a chwiliwyd. | . |
| **Dull darparu** | Gweld y wybodaeth ar y safle.<br><br>(Ni ellir rhagweld yr union amseroedd a dyddiadau ar gyfer gweld y wybodaeth gan fod hynny'n dibynnu ar swm yr ymholiadau/gwaith ar y pryd.)<br><br>Hwyluso mynediad drwy ddarparu copïau electronig i'w gweld.<br><br>Hwyluso mynediad drwy ddarparu copïau papur i'w gweld. | Darperir canlyniadau chwiliadau **heb gofrestr** a **chofrestr lawn** ar bapur a gall pobl fynd â hwy ymaith.<br><br>Bydd yr Uned Pridiannau Tir Lleol yn darparu taflen wedi'i hargraffu o'r wybodaeth CON29R i'w chasglu o'r dderbynfa yng Nghoed Pella, Ffordd Conwy, Bae Colwyn LL29 7AZ. | I gyflwyno ceisiadau electronig CON29 a LLC1/CON29 a derbyn y canlyniadau yn yr un modd, cliciwch ar www.conwy.gov.uk/pridiannautirlleol. |
| **Costau** | Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi mabwysiadu'r Rheoliadau Ffioedd yn unol â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ar gyfer ceisiadau dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol. Gan dybio na fydd y gwaith ar y cais yn para'n hwy na 18 awr na'r gost yn fwy na £450, codir tâl fel a ganlyn:<br><br>Gweld copi ar bapur ar y safle – dim tâl | **Heb Gofrestr £42.00** (Tâl o £39 am chwiliadau ym Mharc Cenedlaethol Eryri)<br><br>**Cofrestr Lawn £42.00** (Tâl o £62.75 am chwiliadau ym Mharc Cenedlaethol Eryri)<br><br>Bydd yr Uned Pridiannau Tir Lleol yn creu anfoneb bob mis am y chwiliadau a wnaed yn y naill gategori a'r llall. | **CON29 Electronig (yn cynnwys TAW)**: £96.00<br>**Chwiliad electronig llawn LLC21 a CON29:**£100.00<br><br>Chwiliadau electronig – bydd yr Uned Pridiannau Tir Lleol yn creu anfoneb bob mis am y chwiliadau a wnaed yn y naill gategori a'r llall. Derbynnir taliadau ar ffurf trosglwyddiad banc neu dalu â cherdyn |

| | Cais dan ddarpariaethau'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol. | Cais drwy Ddull Estynedig 1 | Cais drwy Ddull Estynedig 2 |
|---|---|---|---|
| | Gweld copi ar bapur ar y safle – dim tâl<br><br>Gellir codi tâl rhesymol am geisio copïau o'r wybodaeth ar bapur ar yr adeg y dewch i'w gweld, yn unol â'r Rheoliadau Ffioedd (hynny yw, costau pethau fel argraffu, llungopïo, postio ac ati). | Derbynnir taliadau ar ffurf siec, trosglwyddiad banc neu dalu â cherdyn credyd/debyd. | credyd/debyd. |
| **Amserlen** | Ymatebir yn brydlon, ac yn sicr cyn pen 20 diwrnod gwaith.<br><br>Gwneir pob ymdrech i hwyluso mynediad yn brydlon ond dylid cadw mewn cof na ellir sicrhau y bydd modd gwybodaeth y mae amryw wasanaethau'n ei chadw ar yr un dyddiad ac amser.<br><br>Ni ellir darparu amseroedd ymateb penodol – bernir yr hyn sy'n cyfrif fel 'ymateb prydlon' yn ôl nifer y ceisiadau a blaenoriaethau gwaith eraill y gwasanaeth/au dan sylw. | **Heb Gofrestr** – 3 diwrnod gwaith yn ddi-ffael<br><br>**Cofrestr Lawn** – 3 diwrnod gwaith yn ddi-ffael<br><br>Mae'n rhaid i'r Uned Pridiannau Tir Lleol dderbyn ceisiadau am ymholiadau CON29R erbyn 10.30am fel bod y wybodaeth ar gael i'w chasglu ymhen 3 diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad hwnnw.<br><br>(Hynny yw, os derbynnir cais erbyn 10.30am fore Llun fe'i prosesir fel bod y wybodaeth yn barod i'w chasglu erbyn dydd Mercher.)<br><br>(Hynny yw, os derbynnir cais erbyn 12pm ddydd Llun fe'i prosesir fel bod y wybodaeth yn barod i'w chasglu erbyn dydd Iau.) | Caiff yr holl chwiliadau eu prosesu a'u cwblhau mewn 3-4 diwrnod gwaith.<br><br>Unwaith y cwblheir y chwiliad fe ddychwelir y canlyniadau'n electronig y diwrnod hwnnw. |

| | Cais dan ddarpariaethau'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol. | Cais drwy Ddull Estynedig 1 | Cais drwy Ddull Estynedig 2 |
|---|---|---|---|
| | | | |

This document is also available in English

| - 6 | Dyddiad | Enw | Gwasanaeth | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|
| *F1*<br>*F2*<br>*F3 – diwygio manylion e-bost*<br>*F4 - diwygio* | *Mehefin 2010*<br>*Medi 2010*<br>*Hydref 2011*<br>*Mehefin 2016* | *DOC – IRU*<br>*DOC – IRU*<br>*DOC – IGU*<br>*DOC/CSL* | *GCaGC*<br>*GCaGC*<br>*GCaGC*<br>*Rheoleiddio* | *Ffeil / V4 2023 - cym-access to property and land charges information_cy.doc* |